# Taliadau ychwanegol trydydd parti (taliadau ychwanegol)

**Mae rhai cartrefi gofal annibynnol yn codi ffioedd sy'n uwch na'r swn arferol y gall y Gwasanaethau Cymdeithasol ei gyfrannu.**

Yn aml, cyfeirir at yr uchafswm y gall y Gwasanaethau Cymdeithasol ei gyfrannu fel 'y gost arferol'. Os yw'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfrannu tuag at eich ffioedd cartref gofal, a'ch bod yn dewis symud i gartrefi sy'n codi ffi uwch, telir y gwahaniaeth rhwng y ddau swm gan drydydd parti, aelod o'r teulu fel arfer. Weithiau, cyfeirir at daliadau trydydd parti fel taliadau 'atodol'/costau ychwanegol.

## Pwy all wneud taliad trydydd parti?

Yn ôl awgrym yr enw, gwneir y taliad hwn gan rywun ar wahân i chi neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Gall yr unigolyn fod yn berthynas neu ffrind.

Y rheol gyffredinol yw na allwch ddefnyddio eich arian eich hun i ariannu taliad trydydd parti.

Serch hynny, mewn rhai amgylchiadau penodol, gallech wneud taliad trydydd parti o'ch cyfalaf eich hun. Mae'r amgylchiadau hynny fel a ganlyn:

- Pan ydych chi'n gymwys ar gyfer y diystyru eiddo 12 wythnos; neu
- Ble mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cytuno i daliad gohiriedig tan i'ch cartref gael ei werthu.

Argymhellwn eich bod yn ceisio cyngor ariannol a chyfreithiol os ydych yn ystyried yr opsiynau hyn.

Ar wahân i'r amgylchiadau hyn, nid oes unrhyw ganllawiau clir ynghylch yr hyn a ganiateir ym mhob sefyllfa a sut y gallwch ddefnyddio eich arian eich hun. Os bydd angen cyngor pellach arnoch ynghylch sut y gellir cyfrannu at ffioedd eich cartref gofal, mae croeso i chi drafod hyn gyda'ch rheolwr gofal.

## Sut mae'r trefniadau'n gweithio?

Os byddwch yn symud i gartref gofal lle mae angen taliad trydydd parti, mae angen i'r person a fydd yn gwneud y taliad trydydd parti ar eich rhan lofnodi cytundeb gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol cyn i'r cytundeb gyda'r cartref gael ei lofnodi. Wrth wneud hynny mae'n rhaid iddynt gadarnhau bod ganddynt y modd ariannol i wneud

taliadau trydydd parti (gan gynnwys unrhyw gynnydd yn y dyfodol) dros y cyfnod cyfan y byddwch yn byw yn y cartref.

Telir y cartref gofal yn uniongyrchol.

Os bydd y trydydd parti'n methu â chadw at yr ymrwymiad i dalu'r swm y cytunwyd arno, mae'n bosib y bydd angen i chi symud i gartref gofal newydd ble mae'r ffioedd o fewn 'costau arferol' y Gwasanaethau Cymdeithasol.

## A ellir gofyn am daliad trydydd parti ar ôl mynd i mewn i gartref gofal?

Os ydych eisoes yn breswylydd mewn cartref gofal ac ni ofynnwyd am gytundeb trydydd parti ar y pryd, gall y cartref geisio cyflwyno taliad trydydd parti yn nes ymlaen. Bydd newidiadau o'r fath yn gofyn am lunio cytundeb lleoliad newydd a chytundeb gan bob parti. Bydd hyn yn golygu bod y cytundeb gwreiddiol yn dod i ben ac y bydd hawl gennych i rybudd o 28 niwrnod mewn sefyllfa o'r fath.

## Beth fydd yn digwydd os bydd ffioedd y cartref gofal yn codi?

Mae'n arferol i'r ffioedd a godir gan gartrefi gofal gynyddu bob blwyddyn. Mae'n bosib na fydd y swm y gall y Gwasanaethau Cymdeithasol ei gyfrannu godi yn ôl yr un gyfradd â'r cynnydd yn ffioedd y cartref.

## Beth fydd yn digwydd os na allwn dalu taliad y trydydd parti?

Os bydd y person sy'n talu taliad y trydydd parti yn dechrau cael trafferth gyda'r trefniant, mae'n bwysig ei fod yn cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol cyn gynted â phosib.

Fel y manylwyd arno yng nghytundeb y trydydd parti, mae'n bosib y byddai'n rhaid i breswylydd y cartref gofal symud i lety arall o ganlyniad i hyn, yn amodol ar asesiad llawn o'i anghenion gofal. Unwaith y cysylltir â hwy, bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn trefnu adolygiad o'r anghenion hynny a'r trefniadau ariannol ar gyfer cefnogaeth barhaus.